**Cyngor Cymuned Y Bontnewydd**
**COFNODION CYFARFOD MISOL CHWEFROR 12020**
6 Chwefror 2020 7.00 yh Y Ganolfan, Y Bontnewydd

**PRESENNOL:**

**Cynghorwyr:** Peter Garlick, Gruff Williams, Dafydd Iwan, Math Williams, Mirain Llwyd Owen, Wynn Roberts, Erddyn Davies

**Cadeirio:** Geraint Strello

**Clerc:** Huw Llwyd Rowlands

## 1. YMDDIHEURIADAU

Gwyneth Thomas, Emyr Williams, Huw Orwig

## 2. DATGAN DIDDORDEB/BUDDIANT PERSONOL

Dim

## 3. CADARNHAU COFNODION MIS RHAGFYR 2019

Cadarnhawyd cofnodion mis Rhagfyr 2019 Cynnig: Math Williams
Eilio: Gruffudd Williams

## 4. LLYR REES, PENNAETH YSGOL BONTNEWYDD

Croesawyd Llyr Rees, pennaeth newydd Ysgol Bontnewydd i'r cyfarfod. Mae wedi bod yn bennaeth ar Ysgol Gynradd Bontnewydd ers Medi 2019.

Cytunwyd ei bod hi'n syniad da i'r cyngor cymuned ac Ysgol Bontnewydd i barhau i gydweithio ar gyfer y dyfodol.

Amlinellodd Llyr Rees ei weledigaeth addysgol, sef yr hoffai weld llai o bwyslais ar ddata, rhoi profiad addysgol mwy cyfan i'r plant, drwy roi profiadau ehangach iddyn nhw.

Gobeithia'r ysgol adeiladu ar y cyd berthynas sydd wedi bod rhwng y plant a phobl hŷn yn y gorffennol. Mae lleoliad swyddfa Age Cymru ym Montnewydd yn rhoi cyfle i hyn.

Eglurwyd fod Cyngor Gwynedd yn edrych ar drosglwyddo cyfrifoldebau am feysydd chwarae i gynghorau cymuned, gan gynnwys ym Montnewydd. Maent wedi gofyn a fyddai gan y cyngor cymuned ddiddordeb i gymryd gofal am faes chwarae Llwyn Beuno ac Ysgol Bontnewydd.

Eglurwyd fod maes chwarae Ysgol Bontnewydd ar gau wedi diwedd y diwrnod ysgol, a hynny oherwydd problemau efo plant yn dringo ar dô'r ysgol yn y gorffennol.

Dywedwyd y byddai'r ysgol yn trafod efo'r llywodraethwyr y posibilrwydd o gael camera cylch cyfyng yn y dyfodol, er mwyn caniatau defnydd o faes chwarae'r ysgol y tu allan i oriau'r ysgol.

Cyngor Gwynedd sy'n torri gwair maes chwarae'r ysgol, a hynny tua unwaith bob dau fis. Bydd y cytundeb hwnnw yn dod i ben yn fuan, a gall yr ysgol gytundebu efo darparwr newydd.

Mae'r ysgol hefyd wrthi'n creu parc antur yn yr ysgol fydd yn costio tua £8,000. Gobeithir y bydd hwn yn barod ym mis Ebrill.

## 5. MATERION YN CODI O'R COFNODION

### 5.1 Adroddiad gan y Cynghorydd Peter Garlick

Cyfarfu'r Cynghorydd Peter Garlick efo Steffan Jones a Dylan Wynn Jones, swyddogion Cyngor Gwynedd er mwyn trafod sut i wella diogelwch ffordd yn ardal Llanfaglan.

Bu cyfarfod i drafod y mater yng Nghanolfan Felinwnda, ond siomedig oedd y nifer wnaeth fynychu.

Mae gan Gyngor Gwynedd gynllun posibl i wella diogelwch ffordd yn ardal Llanfaglan, fel a ganlyn:-

Rhan 1 – rhwng Hen dŷ a Fron Goch, ychwanegu arwyddion, e.e. "Cerbydau Ar Ganol y Ffordd, Mynedfeydd Cul."

Rhan 2- Gosod twmpathau yn Llanfaglan, ond mae hyn yn ddibynnol ar farn trigolion pentref Llanfaglan. Yr opsiwn arall yw gosod twmpath un bob ochr i'r pentref, ac ynysoedd sy'n cyfyngu llif y traffig ynghanol y pentref.

Rhan 3 – Gosod arwyddion ar y troadau ger maes carafannau White Tower.

Bydd y gwaith uchod yn costio o leiaf £20,000, ac felly does dim sicrwydd y bydd y gwaith yma'n digwydd. Mae'n debyg y bydd Cyngor Gwynedd yn trafod efo Llywodraeth Cymru er mwyn ceisio gwireddu'r gwelliannau, ond rhaid fydd cael cytundeb cyn diwedd y flwyddyn ariannol hon.

Mae'r ddau loches bws newydd i'w gosod ym Montnewydd yn ystod y gwyliau hanner tymor. Mi fydd yn cymryd tua tair wythnos i wneud y gwaith. Bydd arosfan Dôl Beuno yn fwy o faint na'r un presennol, a bydd angen tynnu waliau er mwyn gosod y gysgodfan newydd ger Llwyn Beuno.

Mae yna broblemau parcio ger Stâd y Bryn ac yn Rhes Maltsers wrth fynd heibio'r siop.

Mae'n debyg mai pobl yn parcio eu ceir am y dydd tra'n mynd i'r gwaith yw'r broblem yn Stâd y Bryn, tra bod pobl leol yn awr yn parcio yn Rhes Maltsers, gan fod rhwystrau rhag parcio wedi eu gosod ar y palmant dros y ffordd i'r siop.

Cafodd rhai o'r tai sydd gyferbyn â'r siop ddŵr yn dod i mewn iddynt yn ddiweddar. Galwyd yr adran briffyrdd allan a glanhawyd gwteri, ond gwelwyd mai'r broblem oedd pibell ddŵr Dŵr Cymru sy'n mynd o dan y ffordd. Roedd y bibell wedi cau oherwydd deunyddiau anaddas yn cael eu gwaredu. Mae Dŵr Cymru yn mynd i ysgrifennu at drigolion lleol fydd gobeithio yn rhwystro'r broblem yma rhag digwydd eto.

### 5.2 Y Ganolfan, Bontnewydd

Mae'r Cynghorydd Peter Garlick wedi bod mewn trafodaethau efo cwmni Watkin Jones, er mwyn gweld a fedrant wneud cyfraniad ariannol at Y Ganolfan, neu gynnig peth o amser eu gweithlu i wneud gwaith yno.

Cytunwyd y byddai'n well cael rhai o weithwyr Watkin Jones i ddod i wneud gwaith yn Y Ganolfan, e.e. paentio neu adnewyddu gwaith pren. na chael cyfraniad ariannol.

**Adroddiad trysorydd Pwyllgor y Ganolfan i gyfarfod CCB mis Chwefror 2020**

**Sefyllfa ariannol:**
Arian yn y banc 3/02/20: £904
Taliadau yn ddyledus am waith wedi ei gwblhau: tua £60
Derbyniwyd casgliad gan y gymuned diolch i Peter Garlick o £448
Costau sefydlog misol: bron £500
Incwm misol ar gyfartaledd: bron £900

**Gwaith cynnal a chadw a gwelliannau, Rhagfyr a Ionawr:**

- Storfa neuadd – graffiti wedi'u guddio ar ôl sawl is-got o baent; angen cot terfynol;
- Silffoedd storfa gofalwr a drws i'r cwt nwy – wedi cwblhau;
- Paentio'r neuadd – Margaret a Sophie wedi dechrau yn y neuadd ; ac yn bwriadu rhoi ail-got ar y waliau yn ystod hanner tymor;
- Adnewyddwyd rhai llechi to yn dilyn stormydd mis Ionawr.

**Ar y gweill**

- Mat sychu traed newydd i'r cyntedd bach – wedi trefnu;
- Golau tu allan wrth y cyntedd bach – dal i aros trydanwr;
- Ystafell ymgynnull newydd (yr hen ystafell snwcer) a drws tân y neuadd – y cynlluniau terfynol yn aros sêl bendith Safonau Adeiladu; wedi derbyn llawer o holiaduron i gefnogi'r cais grant; angen lluniau o weithgareddau gan ddefnyddwyr hefyd i gefnogi'r cais grant;
- Drws mynediad (cyntedd bach) - mae ffram y drws yn rhydd o'r wal ar ochr y colfachau - bydd angen tynnu'r drws a'r ffram allanol i gael gweld y broblem - aros hyd y bydd mwy o arian yn y cyfrif;
- Wedi derbyn y cyntaf o ddau ddyfynbris am adnewyddu'r barge a fascia boards a gosod gwterydd newydd - £3800 i £4300.

## 6. MATERION YN CODI O'R COFNODION

### 6.1 Meysydd Chwarae Bontnewydd

Cafwyd gwybodaeth ychwanegol gan Gyngor Gwynedd oedd yn dangos gwariant blynyddol ar faes chwarae Llwyn Beuno o £413.11 ar gynnal a chadw'r tir, a £153.62 ar archwilio'n flynyddol. Cyfanswm o £566.73 yn flynyddol.

Ni chafwyd unrhyw wybodaeth am faes chwarae Ysgol Bontnewydd.

Fodd bynnag, mae'r Cynghorydd Peter Garlick yn trefnu toriadau gwair ychwanegol ar ei liwt ei hun ym maes chwarae Llwyn Beuno, a byddai angen hefyd ystyried cost adnewyddu'r offer chwarae a chostau ychwanegol yswiriant.

Cytunwyd fod y baich o gymryd cyfrifoldeb y maes chwarae drosodd o Gyngor Gwynedd yn ormod. Felly, penderfynwyd ysgrifennu at Gyngor Gwynedd i ddweud nad oedd diddordeb i ymgymryd â chyfrifoldeb dros y meysydd chwarae ym Montnewydd.

## 6.2 Prosiectau ar gyfer 2020

Cytunwyd y dylai thema'r prosiectau gynnwys iechyd a lles yn ogystal â budd amgylcheddol.

Bydd hyd at £500 ar gael i bob prosiect.

Cytunwyd i ofyn i Elinor Gwynn fod ar y panel dewis, ac y byddid yn fodlon derbyn ceisiadau gan fudiadau y tu allan i'r gymuned, cyn belled a bod hi'n bosibl dangos budd i'r gymuned

Bydd y Cynghorydd Geraint Strello yn llunio ffurflen gais erbyn y cyfarfod nesaf, a bydd angen hysbysebu'r grantiau, e.e. ar y wefan, yn Lleu, Eco'r Wyddfa a Papur Dre.

## 6.3 Clwb Ieuenctid Bontnewydd

Mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn cynnal sesiynau ar gyfer ieuenctid ym Montnewydd am y dair wythnos ddiwethaf. Siomedig yw nodi na fynychodd yr un plentyn unrhyw un o'r sesiynau, er fod Cyngor Gwynedd wedi ceisio hybu diddordeb drwy ddefnyddio gweplyfr, a mynd o gwmpas pentref Bontnewydd ar nosweithiau'r sesiynau.

Mae Cyngor Gwynedd o'r farn y gall pethau wella wrth i'r tywydd wella erbyn y gwanwyn. Search hynny, fe gytunwyd y byddai'n annhebygol y byddai'r cyngor cymuned yn cyfrannu'n ariannol at unrhyw sesiynau ychwanegol, onibai fod yna newid sylweddol yn nifer y mynychwyr.

### 6.4 Cau Lonydd Lleol

Cafodd Siân Gwenllian ateb gan y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, Ken Skates. Cadarnhaodd nad oedd unrhyw iawndal ar gael i breswylwyr oedd yn cael eu heffiethio oherwydd fod lonydd lleol yn cael eu cau yn ystod cyfnod cwblhau'r ffordd osgoi.

Fodd bynnag, fe gyfeiriwyd at y ffaith fod Llywodraeth Cymru a Chyngor Gwynedd yn cydweithio er mwyn lliniaru unrhyw broblemau traffig oedd yn cael eu creu yn ardal Llanfaglan oherwydd gwaith y ffordd osgoi.

Enghraifft o'r cydweithio yma yw'r hyn a nodwyd yn eitem 5.1 uchod, adroddiad y Cynghorydd Peter Garlick

### 6.5 Gwefan

Mae'r Cynghorydd Gruffudd Williams wedi llunio draft cychwynnol o'r wefan. Defnyddir y parth Bontnewydd.Cymru. Cost y parth yw £10 y flwyddyn, ac mae yna gostau misol o tua £10.

Mae angen ychwanegu lluniau a chynnwys ychwanegol, ynghyd â gwybodaeth am Y Ganolfan a'r ardal leol. Cytunodd y Cynghorydd Math Williams i roi mwy o wybodaeth am yr ardal ar y dudalen gartref.

Mae'n rhaid gosod y wybodaeth ganlynol ar y wefan:

- Gwybodaeth ar sut i gysylltu â'r cyngor cymuned, gan gynnwys:
  Rhif ffôn
  Cyfeiriad post
  Cyfeiriad e bost

- Gwybodaeth am bob aelod, gan gynnwys:
  Enw pob aelod
  Sut i gysylltu â'r aelod
  Unrhyw gysylltiad gwleidyddol
  Y ward a gynrychiolir
  Unrhyw swyddogaeth sydd gan yr aelod ar y cyngor
  Unrhyw bwyllgor o'r cymuned y mae'r aelod yn eistedd arno

- Cofnodion
- Ffurflen flynyddol

Cytunwyd y byddai enw pob cynghorydd a chyfeiriad e-bost yn ddigonol o ran manylion cyswllt y cynghorwyr.

## 7.MATERION ARIANNOL

### 7.1 Cyflog a Chostau Clerc Rhagfyr 2019 a Ionawr 2020

£234.00 - £46.80 treth incwm = £187.20 + costau swyddfa £45.00

**Cyflog** £232.20 y mis
**TWE** £46.80 y mis

**Cyfanswm Gros** £279.00 y mis
**Cyfanswm Net** £232.20 y mis

### 7.2 Penderfynu ar Braesept 2020/2021

Cytunwyd i beidio â chynyddu'r praesept, a'i gadw ar y lefel bresennol o £18,500.

## 8. CYNLLUNIO A MATERION CYFREITHIOL ERAILL

C19/1198/19/LL Cais ar gyfer codi tŷ rheolwr, Coed Sipsiwn, Bontnewydd, LL55 2YA

Ysgrifennodd y Clerc at Gyngor Gwynedd i ddweud nad oedd gwrthwynebiad i'r cais hwn.

Awgrymwyd y byddai'n beth da ymweld â Choed Sipsiwn yn y gwanwyn.

## 9. GOHEBIAETH

- Newyddlen Ffordd Osgoi Bontnewydd, Gaeaf 2019/20

Derbyniwyd er gwybodaeth

## 10. MATERION ERAILL

### 10.1 Adolygu Asesiad Risg

Adolygwyd y fersiwn diwygiedig o'r asesiad risg cyfredol. Cymeradwywyd yr asesiad risg efo'r newid canlynol:-

- Newid talu cyflog cywir i'r Clerc i risg isel gan fod Owain Bebb a'i gwmni yn paratoi'r gyflogres.

Cytunwyd y dylid mynd allan bob 6 mis i asesu eiddo'r cyngor, a chofnodi cyflwr unrhyw asedau, e.e. cysgodfanau bysiau, hysbysfyrddau, drwy dynnu lluniau.

Trafodwyd asedau'r cyngor, ac mae'n debyg fod yna 3 cynhwysydd ychwanegol yng nghae pêl-droed Bontnewydd, yn ychwnaegol i'r ddau sydd ar restr asedau'r cyngor ac sydd wedi eu nodi ar restr asedau'r cyngor cymuned.

Mae'r cae pêl-droed ar lês i Glwb Pêl-droed Bontnewydd, ac mae yswiriant y clwb pêl-droed yn yswirio atebolrwydd pan fydd gemau yn cael eu chwarae, ond mae angen gwirio fod polisi yswiriant y cyngor cymuned yn yswirio'r cae ar adegau eraill.

**10.2 Dŵr Budr Safle Watkin Jones**

Cyfeiriodd y Cynghorydd Peter Garlick at ddŵr budr sy'n llifo o safle tai newydd Cae Capel i afon gwyrfai. Bydd y Cynghorydd Peter Garlick yn cysylltu efo rheolwr y safle er mwyn trafod ymhellach.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf – 5 Mawrth 2020 am 7 yr hwyr yn Y Ganolfan, Bontnewydd**

**Arwyddwyd………………………**

Cadeirydd Cyngor Cymuned Y Bontnewydd

**Dyddiad**……………………………